**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 2 o HYDREF 2023 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH**

**Presennol:** Tyssul Evans (Cadeirydd yn y gadair) ,Caroline Williams, Ian Evans, Aled Williams, Tracey James, Meic Bowen , Delyth Thomas, Heddwyn Jones, Linda Williams, Alan Lewis a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Margaret Rees , Geraint Rosser a'r Cynghorwr Sir Meinir James.

**3071** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

**3072 Cofnodion**
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 04/09/2023 fel rhai cywir.

**3073 Materion yn codi.**
Tud 1. Cofnod Rhif 3054 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Yn dilyn yr adroddiad diweddaraf penderfynwyd trosglwyddo'r mater i'r Ombwdsmon.
Tud 1. Cofnod Rhif 3054 - Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am adroddiad oddiwrth y Swyddog priodol.
Tud 1. Cofnod Rhif 3054 - Ysgol Glanymor - Arhoswn am Gyfarfod gyda'r Cyngor Sir.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

*Cynghorwyr Meic Bowen, Delyth Thomas a Heddwyn Jones yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**3074** Nasareth Pontiets - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

*Meic, Delyth a Heddwyn yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

*Cynghorwyr Linda Williams ac Alan Lewis yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**3075** Moreia Meinciau - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

*Linda ac Alan yn ail ymuno a'r cyfarfod*

**3076** Ebeneser Crwbin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

**3077** Bethel Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

**3078** Macmillan Cancer - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £125 ar ran Ysgolion Carwe,Gwynfryn, Pont-henri, Ysgol y Fro Llangyndeyrn a Chapel Salem Pedair Heol

**3079** Eisteddfod Llandyfaelog – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**3080** Llangyndeyrn Indoor Bowls Club - Llythyr yn diolch am y rhodd.

**3081** Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**3082** Clwb Rygbi Pontiets – Ramp i'r Anabl – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth ychwanegol :-

**3083** Cyngor Sir Gar – Cau Dros Dro Pedair Heol – Nodwyd y Llythyr.

**3084** Cyngor Sir Gar – Cyflymder Traffig 20 Milltir yr Awr – Nodwyd y Llythyr.

**Ceisiadau Cynllunio**

**3085**

DIM CEISIADAU

.**Gwaharddiad y Cyhoedd**

**3086 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.**

**Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis**

*Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**3087** Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Medi. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

*Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod*

**3088 Swyddfeydd Post - Carwe / Pontiets / Pont-henri/ Bancffosfelen**

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r uchod. Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd ein bod yn mynegi ein hanfodlonrwydd ynglŷn â'r ymateb a nodi bod Swyddfa BOst Trimsaran yn aml ar gau oherwydd problemau Staffio.

**3089 Peilonau Dyffryn Tywi**

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r mater hwn. Nodwyd y cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Eglwys Llangyndeyrn ar Nos Iau, 26/10/23 am 7.30 o'r gloch.

**3090 Blwch Post ger Brongwendraeth Carwe**

Nodwyd bod angen ail - leoli'r Blwch Post. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Swyddfa Bost.

**3091 20 M.Y.A. Tu allan i Ysgolion**

Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir i ail gosod arwyddion tu allan i'r Ysgolion yn Gwynfryn, a Charwe.

**Cyfarfod nesaf:- 6 o Dachwedd 2023 - Neuadd Pontiets**

**Llofnodwyd…………………………………………. CADEIRYDD**

**Dyddiad…………………………………………….**